**2pm, Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024**
**Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Caerfyrddin**

| COFNODION | |
|---|---|
| **Presennol** | |
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Y Cynghorydd Darren Price (Cadeirydd) | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Andrew Cornish | Coleg Sir Gâr |
| Mydrian Harries | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Y Cynghorydd John Davies | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Andrew Hood | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Dr Michael Thomas | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Gwilym Dyfri Jones | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Marie Mitchell | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin |
| Andrew Charles | Llywodraeth Cymru |

| Yn bresennol | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Caryl Jones | Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Meri Huws | Fforwm Sirol Strategol ar yr iaith Gymraeg |
| Gwyneth Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Amy Richmond Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Llinos Evans | Cyngor Sir Caerfyrddin |

## 1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

| Ymddiheuriadau | |
|---|---|
| **Enw** | **Trefniadaeth** |
| Christine Harley | Gwasanaeth Prawf |
| Catherine Mealing-Jones | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Jason Jones | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Carys Morgans | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Kevin James | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Linda Jones | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Kate Harrop | Cyngor Sir Caerfyrddin |

Croesawodd y Cynghorydd Darren Price, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod.

## 2. **Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol**

Croesawyd Caryl Jones i'r cyfarfod i sôn am yr Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol y mae'n rhan ohoni. Hwylusir yr Academi gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae Caryl yn un o 30 o cohort sy'n dilyn y rhaglen tan fis Mawrth 2024.

Nod yr Academi yw creu arweinyddion Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n hyrwyddo ac yn llywio gwireddu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws Cymru.

Cwmni Elevate BC sy'n llywio'r elfen arweinyddiaeth o'r academi, ac fel rhan o hyn, mae cyfle i ddatblygu cynllun gweithredu unigol ar gyfer maes gwaith neu sector penodol.

Rhannwyd enghreifftiau o'r adnoddau sydd wedi'u rhannu gyda'r aelodau a nodwyd y byddai Caryl yn seilio ei chynllun gweithredu ar strategaeth pum mlynedd Canolfan yr Atom, er mwyn sicrhau cyfranogaeth gymunedol. Fel rhan o hyn, estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gymryd rhan a cylchredir gwahoddiad i noson gymunedol, maes o law.

Amlygodd CJ datblygiad Cymru Can, sef gweledigaeth y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer y cyfnod 2023-40. Mae'r pum cenhadaeth fel a ganlyn –

- Gweithredu ac effaith
- Hinsawdd a natur
- Iechyd a Llesiant
- Diwylliant a'r iaith Gymraeg
- Economi llesiant

Wrth gloi'r cyflwyniad, anogodd CJ y sefydliadau sy'n rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried cefnogi neu noddi unigolyn i fod yn rhan o'r cohort ar gyfer Academi 2024.

Diolchwyd i Caryl am ei brwdfrydedd ac am rannu'r negeseuon positif o'r cynllun.

Fel rhan o'r drafodaeth, esboniodd Andrew Charles fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd ar y rhaglen a bod y Ysgrifenydd Parhaol wedi gwahodd tri aelod o'r Academi, sy'n gweithio yn y Llywodraeth, i gefnogi'r gwaith o feithrin pobl i weithredu'r Ddeddf o fewn y sefydliad.

Yn dilyn cwestiwn gan Andrew Cornish, cytunwyd i gylchredeg gwybodaeth bellach am y cynllun ac am y broses ymgeisio. Cytunwyd hefyd i edrych ar y posibilrwydd o drefnu sesiynau llai dwys ar lefel lleol, fel bod modd cyrraedd mwy o swyddogion o fewn cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ymholodd Michael Thomas sut y defnyddir data wrth weithredu pum cenhadaeth Can Cymru gan nodi y byddai data manwl ar gael drwy ymchwil Iechyd a arweiniodd drwy ARCH, ar sail rhanbarthol.

Cytunwyd i greu dolen rhwng y gwaith hwn a swyddfa'r Comisiynydd ac i drefnu fod MT yn rhoi cyflwyniad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

| GWEITHREDU | |
|---|---|
| Estyn gwahoddiad i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i noson ymgysylltu cymunedol. | Caryl Jones |
| Cylchredeg gwybodaeth am Gynllun Academi Arweinyddion y Dyfodol | Tîm Cefnogi'r BGC |
| Creu dolen rhwng Dr Michael Thomas a'r gwaith ymchwil drwy ARCH gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | Tîm Cefnogi'r BGC |

| | |
|---|---|
| Trefnu cyflwyniad gan Dr Michael Thomas yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus at y dyfodol | Tîm Cefnogi'r BGC |

| **Amcan Llesiant: Helpu i greu cymunedau dwyieithog, diogel ac amrywiol** |
|---|
| **3. Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-2028** |

Croesawyd Meri Huws i'r cyfarfod yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Fforwm Sirol Strategol y Gymraeg, Sir Gâr.

Nodwyd cyd-destun gwaith y Fforwm i'r aelodau a bod cyrff y BGC, ar wahân i Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu cynrychioli ar y fforwm.

Lansiwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-28 yn Eisteddfod yr Urdd, Llanymddyfri yn 2023. Mae holl bartneriaid y fforwm wedi cyd-gynllunio'r Strategaeth ac yn symud ymlaen yn awr at baratoi cynllun gweithredu i bob amcan.

Cafwyd enghreifftiau o'r gwaith sydd wedi ei sbarduno gan y fforwm, gan gynnwys y Pecyn Croeso a'r Pecyn 'Y Gymraeg mewn Busnes'.

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi rhoi ffocws o'r newydd i waith y fforwm, wedi i'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg ddisgyn yn y sir, unwaith eto.

I'r perwyl hynny, mae'r fforwm wedi gosod y nod canlynol:

*"Anelu at wneud y Gymraeg yn brif Iaith yn sir. Adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd o fywyd."*

Mae'r fforwm yn awyddus i gefnogi'r BGC gyda'r amcan o ran "Helpu creu cymunedau dwyieithog, diogel ac amrywiol" ac i adnabod y cyfleoedd a'r heriau o ran y Gymraeg yn y sir.

Fel rhan o'r drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gosodwyd her i aelodau'r BGC i gysylltu mewn gyda chynrychiolwyr eu sefydliadau, sy'n eistedd ar y Fforwm Sirol
- Cynigiwyd cefnogaeth i'r cyrff wrth iddynt weithio ar gynlluniau strategol ac wrth asesu effaith posib ar y Gymraeg / datblygu camau lliniaru lle bod angen
- Cytunwyd i gynnal gweithdy blynyddol ar y cyd, er mwyn edrych ar gynnydd a chamau at y dyfodol, yn seiliedig ar ddata
- Bod cyfleoedd i gydweithio fel cyrff ar gynllunio gweithlu a'r sgiliau Iaith sydd eu hangen arnom er mwyn darparu gwasanaethau.

Yn dilyn y drafodaeth, nododd Andrew Cornish fod recriwtio i swyddi lle mae angen sgiliau yn y Gymraeg yn anodd, gan nodi Peirianneg Amaethyddol yn benodol. Nododd ei awydd i sicrhau fod gwell profiad dysgu cyfrwng Cymraeg yn y maes ôl-16 a bod y sefydliadau yn ceisio cynllunio yn strategol gyda'u gilydd.

Ategwyd fod holl bartneriaid y BGC yn awyddus i weld ein pobl ifanc yn aros yn y sir a bod yna ddolen rhwng yr Iaith, gweithgarwch economaidd a chyfleoedd.

Nododd Michael Thomas y byddai'n awyddus i ddysgu mwy am yr asesiad effaith ieithyddol a sut y mae modd plethu hyn gyda'r asesiad effaith iechyd. Cytunwyd y bydd Michael Thomas a Meri Huws yn cael sgwrs bellach am hyn.

Pwysleisiodd y Cynghorydd John Davies effaith cynllunio a datblygu tir ar yr iaith Gymraeg a nododd ei ofid o ran dirywiad diwydiannau megis amaethu, sydd wedi bod yn asgwrn cefn i'r Gymraeg dros y blynyddoedd. Bydd newidiadau yn y diwydiannau hyn yn arwain at her demograffig gwahanol iawn a risg y bydd ein cymunedau Cymraeg yn crebachu.

| GWEITHRED | |
|---|---|
| Cytunwyd i gynnal gweithdy blynyddol ar y cyd, er mwyn edrych ar gynnydd a chamau at y dyfodol, yn seiliedig ar ddata | Fforwm Sirol Strategol<br><br>Tîm Cefnogi'r BGC |
| Cynnal sgwrs er mwyn trafod yr asesiad effaith ieithyddol a'r asesiad effaith iechyd. | Dr Michael Thomas a Meri Huws |

**Amcan Llesiant: Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg**

**4. Diweddariad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

Cafwyd diweddariad am waith y grŵp a nodwyd bod y swyddogion canlynol wedi eu henwebu: Rebecca Jones (Coleg Sir Gâr); Karen Fairhurst (Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru); Alison Wood (Cyngor Sir Gâr); Mark Sabine (Cyfoeth Naturiol Cymru); Rhianydd Barnes (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol); Clare Steel (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda).

Nodwyd bod nifer o grwpiau lleol/rhanbarthol eisoes yn edrych ar faterion gweithlu'r dyfodol a bod angen osgoi dyblygu a sicrhau ymagwedd gyson.

Nododd y rhan fwyaf o sefydliadau gyfle o ran mwy o gydweithio ar draws sefydliadau BGC o ran hyrwyddo cyfleoedd gyrfa/gwaith yn y sector cyhoeddus o fewn ysgolion lleol.

Cytunwyd i ganolbwyntio yn y cyfarfod nesaf ar amlinellu heriau recriwtio sefydliadau unigol gyda'r bwriad o nodi meysydd ar gyfer cydweithredu posibl ar draws asiantaethau i fynd i'r afael â hwy.

| GWEITHRED | |
|---|---|
| Paratoi diweddariad ysgrifenedig erbyn cyfarfod mis Mawrth y BGC. | Tîm Cefnogi BGC |

**Amcan Llesiant: Mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau**

**5. Diweddariad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r grŵp gorchwyl a gorffen. Yn dilyn adborth gan yr aelodau, mae'r grŵp wedi estyn gwahoddiad i Kelly White, sy'n arwain ar y Strategaeth Atal i ymuno.

Cynhaliwyd cyfarfod ar wahân gyda Trina Nealon o Iechyd Cyhoeddus er mwyn deall mwy am fframwaith ffurfiol MECC a sut gallwn ni baratoi argymhellion i chi fel aelodau wrth symud ymlaen. Mae grŵp cenedlaethol sy'n cael ei weinyddu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae Trina yn aelod, felly, byddwn ni'n medru derbyn diweddariadau o ran y gwaith ar lefel Cymru er mwyn ystyried sut dy ni'n symud ymlaen yn lleol.

Mae'r fframwaith cenedlaethol yn ffocysu ar gynyddu capasiti timoedd i gynnal sgyrsiau lles ac i wneud yn siŵr fod gwybodaeth bwysig ynglŷn a iechyd a lles yn cyrraedd unigolion yn ein cymunedau. Fel rhan o'r cyfarfod nesaf, byddwn ni'n edrych ar y cyfleoedd / gofynion hyfforddi er mwyn bod yn gymwys i gynnal y sgyrsiau hyn, eto, er mwyn paratoi argymhellion i chi ystyried fel Bwrdd.

O ran elfen yr Hwb, mae'r grŵp yn mapio allan y gwasanaethau cyngor a chefnogaeth sy'n cael eu darparu gan bob sefydliad – dy ni eisoes wedi adnabod cyfleoedd newydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru o ran y tudalennau gwybodaeth brys a sut gallwn ni gyfeirio pobl at wybodaeth brys lleol ar wefan y Cyngor Sir, er enghraifft.

Mae nifer o berthnasau gwaith positif eisoes mewn lle ond mae cyfle nawr i ffurfioli rheini a monitro ychydig mwy o ran yr unigolion sydd yn cyrraedd y gwasanaethau – bydd darn o waith yn

cael ei wneud i edrych ar ein data ni, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyrraedd y bobl mwyaf bregus.

Yn y cyfarfod nesaf ar 31 Ionawr bydd y grŵp yn edrych ar astudiaethau achos diweddar o wasanaeth Hwb Fach y Wlad a lle mae cyfleoedd posib o ran rhannu gwybodaeth cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy'r swyddogion hynny.

| GWEITHRED | |
|---|---|
| Paratoi diweddariad ysgrifenedig erbyn cyfarfod mis Mawrth y BGC. | Tîm Cefnogi BGC |

**Amcan Llesiant: Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur**

**6. Cynyddu cydweithio ar seilwaith Codi Tâl EV Cerbydau Trydan mewn lleoliadau sector cyhoeddus**

Nodwyd fod Mydrian Harries wedi cynnig cadeirio'r grŵp a'i fod wedi bod yn rhan o waith drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys er mwyn datblygu cytundeb lefel gwasanaeth.

Bydd cyfarfod cyntaf y grŵp gorchwyl a gorffen wedi ei drefnu ar yr 2il o Chwefror. Gofynnwyd i aelodau ddanfon enwebiadau eraill drwodd i eistedd ar y grŵp.

Gofynnwyd i aelodau i ddanfon gwybodaeth am leoliadau y pwyntiau gwefru sydd ganddynt fel sefydliad er mwyn i ni ddechrau mapio hynny yn ddaearyddol.

Bydd yn grŵp yn ystyried y gwaith sydd wedi ei wneud drwy brosiect EARTH (Economic Acceleration and Regeneration Through Innovation), ar sail rhanbarth Bargen Ddinesig Bae Abertawe, i edrych ar isadeiledd gwefru trydan a'r hyn sydd angen wrth gynllunio fflyd.

| GWEITHRED | |
|---|---|
| Paratoi diweddariad ysgrifenedig erbyn cyfarfod mis Mawrth y BGC. | Tîm Cefnogi BGC |

**7. Cofnodion a Materion yn Codi**

<u>Cofnodion 28 Tachwedd 2023</u>
Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir a gwir.

<u>Log Gweithredu</u>
Darparwyd diweddariadau ar gamau gweithredu blaenorol.

**9. Unrhyw fusnes arall**

**Digwyddiad Blynyddol y BGC**
Cytunwyd, oherwydd ein bod ni'n gynnar yn y broses o weithredu'r Cynllun Lles i beidio cynnal digwyddiad blynyddol ac ystyried y sefyllfa eto yn 2025.

**Fideos hyrwyddo / profiad byw**
Cytunwyd i ddefnyddio'r amser fideos i wneud cipolwg ar waith y BGC dros y flwyddyn.

| GWEITHRED | |
|---|---|
| Dechrau'r gwaith cynllunio o ran paratoi'r fideo i hyrwyddo gwaith y flwyddyn olaf. | Tîm Cefnogi'r BGC |

**10. Cyfarfodydd y dyfodol**

- 19 Mawrth 2024 (Teams)
- 14 Mai 2024 - Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Caerfyrddin